Busnes@
LlandrilloMenai

Coleg Llandrillo | Coleg Menai | Coleg Meirion Dwyfor

prentisiaethau
cyrsiau proffesiynol
gwasanaethau arbenigol
cyrsiau byr
prentisiaethau
cyrsiau proffesiynol
gwasanaethau arbenigol
cyrsiau byr

# Cyrsiau i Gyflogwyr

prentisiaethau
cyrsiau proffesiynol
gwasanaethau arbenigol
cyrsiau byr
prentisiaethau
cyrsiau proffesiynol
gwasanaethau arbenigol
cyrsiau byr



busnes@gllm.ac.uk | 08445 460 460 | gllm.ac.uk/busnes

# CROESO

Busnes@LlandrilloMenai yw enw'r gwasanaeth ymgysylltu â chyflogwyr sydd gan Grŵp Llandrillo Menai, rhiant-sefydliad Coleg Llandrillo, Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor.



**Rydym yn siop un stop ar gyfer eich holl anghenion hyfforddi a datblygu fel cyflogwr.**

**Gweithiwn gyda chi i greu'r pecynnau hyfforddi, datblygu a chefnogi y mae arnoch eu hangen, gan sicrhau bod eich staff yn cael y sgiliau a'r cymwysterau a fydd yn eu galluogi i berfformio ar y lefel uchaf. Gall cefnogi'ch gweithwyr drwy roi hyfforddiant iddynt ddeillio ar amryw o fanteision, yn cynnwys:**

- Gwella cynhyrchiant
- Lleihau trosiant ac absenoldebau staff
- Codi calonnau staff
- Gwella eich gwasanaeth i gwsmeriaid

Yn yr arweiniad hwn, ceir gwybodaeth am yr ystod eang o gyrsiau busnes a chyrsiau datblygiad personol sydd ar gael ar ein campysau ledled Gogledd Cymru.

Gellir cael cyrsiau mewn meysydd sy'n amrywio o gyfrifyddu i adeiladau ac o harddwch i ofal. Beth bynnag fo'ch rôl neu ym mha sefydliad bynnag yr ydych yn gweithio, mae gennym rywbeth i'w gynnig i chi.

**I gael rhagor o wybodaeth, neu i drefnu dod i weld un o'n Cynghorwyr, anfonwch neges ebost i busnes@gllm.ac.uk, neu ffoniwch 08445 460 460.**

# CYRSIAU HYFFORDDI

### Cyrsiau Rhan-amser a Phroffesiynol

Ymhlith ein cyrsiau proffesiynol, mae cymwysterau gan gyrff dyfarnu fel Sefydliad y Technegwyr Cyfrifyddu (AAT), y Sefydliad Arwain a Rheoli (ILM), y Sefydliad Marchnata Siartredig (CIM) a'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD). Cyrsiau rhan-amser yw'r rhain, ac fel rheol, mae'n cymryd blwyddyn i gwblhau pob lefel.

### Cyrsiau Byr

Mae cyrsiau hyfforddi byr, dwys yn para llai na phum diwrnod ac yn cynnwys pynciau fel cymorth cyntaf brys, diogelwch bwyd neu godi a chario

### Prentisiaethau

Mae Prentisiaeth yn ddull cost-effeithiol o recriwtio a hyfforddi gweithwyr medrus.

Bydd prentis yn meithrin sgiliau ymarferol yn ogystal ag ennill cymhwyster cydnabyddedig, er mwyn bodloni anghenion y busnes yn awr ac yn y dyfodol. Gall hefyd dderbyn cymorth i wella ei sgiliau llythrennedd a rhifedd.

Ar hyn o bryd, rydym yn cynnig dros 40 llwybr prentisiaeth gwahanol mewn meysydd sy'n amrywio o wasanaeth i gwsmeriaid a gofal plant i beirianneg a chyfryngau cymdeithasol.

### Prentisiaethau Uwch


Mae prentisiaeth uwch yn cyfuno hyfforddiant yn y gweithle ag astudio tuag at gymhwyster lefel uchel a gaiff ei gydnabod gan ddiwydiant. Mae'n llwybr gwahanol i'r un addysg uwch academaidd arferol i'r gweithwyr hynny yn eich sefydliad sydd am fod y genhedlaeth nesaf o reolwyr.

Prentisiaethau Apprenticeships

**I gael gwybodaeth lawn am yr holl gyrsiau, yn cynnwys amseroedd a dyddiadau, ac i archebu a thalu ar-lein os hoffwch, ewch i gllm.ac.uk/busnes**

# TAITH Y PRENTIS

Gall taith prentis helpu i gynnal a datblygu gyrfa, o lefel technegydd i lefel rheolwr. Gall sefydliadau a gweithwyr gyflawni eu potensial drwy gael hyfforddiant bob cam o'r ysgol yrfaol.



# BUSNES A RHEOLI

Yn ein lleoliadau ledled Gogledd Cymru, cynigiwn ddewis helaeth o gyrsiau, hyd at lefel gradd, ym meysydd busnes, cyllid, y gyfraith a rheoli. Cynlluniwyd y cyrsiau hyn i fodloni anghenion gweithwyr proffesiynol uchelgeisiol a'u cyflogwyr.





## Mae'r cyrsiau'n cynnwys:

**Cyrsiau proffesiynol a rhan-amser:**

- Cyfrifyddu (ACCA/AAT)
- Arwain a Rheoli (ILM)
- Marchnata (CIM)
- Personél (CIPD)
- Caffael (CIPS)

**Cyrsiau byr:**

- Cadw Cyfrifon
- Hyfforddi a Mentora
- Gwasanaeth i Gwsmeriaid
- Cyfraith Cyflogi
- Rheoli Digwyddiadau
- Rheoli Prosiectau
- Rheoli Amser
- Cyfryngau Cymdeithasol
- Prosesu Geiriau a Thestun

**Prentisiaethau:**

- Cyfrifyddu
- Gweinyddu Busnes
- Canolfan Gyswllt
- Gwasanaeth i Gwsmeriaid
- Digwyddiadau Byw a Digwyddiadau Hyrwyddo
- Rheoli
- Manwerthu
- Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol
- Rheoli Cadwyn Gyflenwi

**Prentisiaethau Uwch:**

- Cyfrifyddu
- Gweinyddu Busnes
- Arloesi a Thwf ym maes Busnes
- Rheoli ym maes Adnoddau Dynol
- Rheoli Prosiectau
- Rheoli
- Rheoli ym maes Manwerthu
- Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol

# Y GANOLFAN RHEOLAETH

Mae ein tîm Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol, sydd â'i bencadlys yn y Ganolfan Rheolaeth ym Mangor, yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor er mwyn darparu hyfforddwyr o'r radd flaenaf sy'n cyflwyno cymwysterau achrededig i ddarpar reolwyr ac uwch reolwyr.

Ymhlith y cymwysterau proffesiynol, mae meysydd fel cyfrifyddu (ACCA/AAT), arwain a rheoli (ILM), marchnata (CIM), personél (CIPD) a chaffael (CIPS).






## Peter Bell

**Rheolwr Arlwyo Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**


**Diploma Lefel 5 ILM mewn Arwain a Rheoli**

"Mi wnes i wir fwynhau'r profiadau a ges i wrth ddysgu. Oherwydd ansawdd yr addysgu a'r cyfle a ges i rannu a gwrando ar brofiadau rheolwyr eraill o adrannau a meysydd gwahanol, ces y wybodaeth sy'n angenrheidiol i roi fy astudiaethau academaidd ar waith er budd fy swydd."

# CYFRIFIADURA, TG A CHYFRYNGAU



Cynhelir ein cyrsiau cyfrifiadura, TG a chyfryngau ledled Gogledd Cymru, mewn lleoliadau lle ceir cyfarpar o'r radd flaenaf ac addysgu o safon sy'n bodloni'r diwydiant.





## Mae'r cyrsiau'n cynnwys:

**Cyrsiau proffesiynol a rhan-amser:**

- Rhwydweithio CISCO
- Microsoft Certified Solutions Associate (MCSA 2012)

**Cyrsiau byr:**

- Trwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd (ECDL)
- Microsoft Office
- Dylunio Gwefannau
- Hyfforddiant ym maes y Cyfryngau Cymdeithasol

**Prentisiaethau:**

- Defnyddwyr TG
- Gweithio ym maes TG, Meddalwedd, y We a Thelathrebu
- Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol

**Prentisiaethau Uwch:**

- Gweithio ym maes TG, Meddalwedd, y We a Thelathrebu
- Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol

# ADEILADU





Mae ein cyrsiau adeiladu'n amrywio o ddyfarniadau sylfaen i gyrsiau lefel gradd. Yn ogystal â chanolfannau adeiladu yn y pedair sir, mae gennym hefyd Ganolfannau Hyfforddiant ym maes Nwy ar ein campysau yn Llangefni a Llandrillo-yn-Rhos.



## Y GANOLFAN PEIRIANNAU TRWM

**Mewn partneriaeth â hyfforddwr blaenllaw, rydym erbyn hyn yn cynnig amrediad o raglenni hyfforddi arbenigol ym maes peiriannau trwm yn ein canolfan yn Llangefni.**

**Mae'r rhan fwyaf o'r rhaglenni hyn yn arwain at gymwysterau a achredwyd gan y diwydiant, a byddant yn help amhrisiadwy i fusnesau gystadlu am gontractau pwysig ledled Gogledd Cymru yn y degawd nesaf.**

## Mae'r cyrsiau'n cynnwys:

### Cyrsiau proffesiynol a rhan-amser:

- Diploma Cenedlaethol NEBOSH mewn Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol.

### Cyrsiau byr:

- Diogelwch Tân
- Cymorth Cyntaf
- Hyfforddiant ym maes Nwy
- Iechyd a Diogelwch
- Peiriannau Trwm
- Codi a Chario
- Asesu Risgiau

### Prentisiaethau:

- Gosod Brics
- Adeiladu Cyffredinol
- Cynnal a Chadw Cyffredinol
- Gwaith Asiedydd
- Paentio ac Addurno
- Plastro
- Plymwaith a Gwresogi

### Prentisiaethau Uwch:

- Rheoli ar Safleoedd Adeiladu

# PEIRIANNEG, TRYDANOL AC YNNI ADNEWYDDADWY

Cynigiwn ddewis eang o gyrsiau ym maes trydan, peirianneg ac ynni adnewyddadwy. Ar gampysau Llangefni a Llandrillo-yn-Rhos, mae gennym hefyd Ganolfannau Ynni Adnewyddadwy i ategu'r maes twf hwn.





## CANOLFANNAU ARBENIGOL

**Mewn canolfannau arbenigol ar ein campysau yn Llandrillo-yn-Rhos a Llangefni, darparwn wasanaeth ymgynghori arloesol ym maes gweithgynhyrchu a dylunio er mwyn helpu i droi syniadau ac arbenigedd cleientiaid yn gynnyrch gwerthadwy go iawn. Mae'r rhain yn cynnwys dylunio cynnyrch, sganio 3D, cyngor ym maes gweithgynhyrchu, prototeipiau cyflym a hyfforddiant, gan ddefnyddio'r dechnoleg a'r meddalwedd diweddaraf.**

gllm.ac.uk/innovation

CAM
Canolfan Arloesi Menai
Menai Innovation Centre



## Fiona Grice

**Prentis ym maes Tyrbinau Gwynt gyda RWE**

**"Dw i'n falch o fod yn ferch mewn diwydiant sydd wedi arfer bod yn ddiwydiant i ddynion yn bennaf. Mi fyddwn i'n argymell cwrs peirianneg i fechgyn a merched gan ei fod yn sylfaen wych ar gyfer eich dyfodol."**

## Mae'r cyrsiau'n cynnwys:

Cyrsiau byr:

- Gosod Trydan
- Ynni Adnewyddadwy
- Effeithlonrwydd Ynni
- Archwilio a Phrofi
- Rheoliadau Gwifro

Prentisiaethau:

- Peirianneg Drydanol
- Gosod Trydan
- Gwella Perfformiad Ymarferol
- Peirianneg Gweithgynhyrchu
- Peirianneg Fecanyddol
- Y Sector Ynni

Prentisiaethau Uwch:

- Peirianneg

# GWALLT A HARDDWCH



Caiff ein cyrsiau trin gwallt a therapi harddwch eu cynnal mewn salonau sy'n bodloni safonau'r diwydiant ar ein campysau ledled Gogledd Cymru, gan ddefnyddio'r cynhyrchion a'r technegau diweddaraf.



## Mae'r cyrsiau'n cynnwys:

**Cyrsiau byr:**

- Trin Gwallt
- Adweitheg
- Tylino ym maes chwaraeon
- Tylino yn y dull Swedaidd

**Prentisiaethau:**

- Gwaith barbwr
- Harddwch
- Gwallt
- Technegydd Ewinedd

**Prentisiaethau Uwch:**

- Trin Gwallt

# IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT



**Ellen Evans**
**Dirprwy Reolwr Meithrinfa Môn**

**Prentisiaeth Uwch Lefel 5 mewn Arwain a Rheoli (Gofal Plant)**

" Mae'r Brentisiaeth Uwch wedi gwella fy mherfformiad fel dirprwy reolwr gan wneud i mi weithio'n fwy effeithiol. Mae gennyf yn awr y sgiliau a'r wybodaeth i ddatblygu fy staff yn y feithrinfa ymhellach."

Dyma sector sy'n tyfu yn y rhanbarth ac mae'r cyrsiau a gynigir yn ategu'r lefelau ansawdd sy'n ofynnol yn y diwydiant. Mae ein cyrsiau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant yn amrywio o gymwysterau undydd i gyrsiau lefel gradd, sy'n arwain at ystod eang o gyfleoedd gyrfaol yng Ngogledd Cymru.

## Mae'r cyrsiau'n cynnwys:

Cyrsiau proffesiynol a rhan-amser:

- Diploma Lefel 5 mewn Arwain ym maes Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Rheoli)
- Diploma Lefel 5 mewn Rheoli ym maes Gofal Sylfaenol ac Iechyd

Cyrsiau byr:

- Iaith Arwyddion Prydain
- Cynorthwywyr Dosbarth
- Datrys Gwrthdaro
- Cwnsela
- Hyfforddiant ar Ddefnyddio Diffibriliwr
- Cymorth Cyntaf
- Codi a chario
- Hyfforddiant ym maes Meddyginiaethau
- Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl
- Diogelu

Prentisiaethau:

- Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Gwaith Chwarae
- Cefnogi'r Addysgu a'r Dysgu mewn Ysgolion

Prentisiaethau Uwch:

- Ymarfer Uwch (Gofal Cymdeithasol/ Gofal Plant)
- Rheoli ym maes Gofal Plant
- Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Arwain a Rheoli (Gofal Cymdeithasol/ Gofal Plant)





## Y SEFYDLIAD IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

**Ar gampws Llandrillo-yn-Rhos, caiff y myfyrwyr elwa o dderbyn hyfforddiant yn y Ganolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol, canolfan lle darperir hyfforddiant a datblygiad proffesiynol o'r radd flaenaf i rai sy'n gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.**

**Mae'r ystafelloedd addysgu pwrpasol yn cynnwys 'ward' 8 gwely, ystafelloedd hyfforddi ym maes cwnsela, cyfleusterau TG ac ystafelloedd dosbarth penigamp a darlithfa fechan.**

# LLETYGARWCH, ARLWYO A GWEITHGYNHYRCHU BWYDYDD



Mae ein cyrsiau lletygarwch ac arlwyo'n cwmpasu ystod o sgiliau cyffredinol sy'n ymwneud â lletygarwch yn ogystal â rhaglenni arbenigol ar gyfer y rhai sy'n dymuno meithrin eu sgiliau technegol ym maes coginio proffesiynol.



## Y GANOLFAN TECHNOLEG BWYD

**Sefydlwyd y Ganolfan Technoleg Bwyd yn 1999 ac mae wedi gweithio'n llwyddiannus ar gannoedd o brosiectau i gwmnïau bwyd a diod lleol a chenedlaethol. Yn y ganolfan hon, ceir neuaddau pwrpasol i brosesu cig ffres, pysgod, cynnyrch llaeth a bwyd a baratowyd; cegin profi a datblygu cynnyrch a labordy dadansoddi cynnyrch.**

foodtech-llangefni.co.uk

## Mae'r cyrsiau'n cynnwys:

Cyrsiau byr:

- Cigyddiaeth
- Addurno Cacennau
- Gwneud Caws
- Perchnogion Trwyddedau Personol
- Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP)
- Bwydydd Iachach a Dietau Arbennig
- Diogelwch Bwyd
- Gweithgynhyrchu Bwydydd

Prentisiaethau:

- Gwasanaethau Glanhau
- Lletygarwch ac Arlwyo

Prentisiaethau Uwch:

- Rheoli ym maes Lletygarwch
- Coginio Proffesiynol a Goruchwylio ym maes Lletygarwch



## Geoff Lofthouse

**Rheolwr Cyffredinol**
**Gwesty'r Imperial, Llandudno**

"Yng Ngwesty'r Imperial, rydym wedi sefydlu partneriaeth â Busnes@LlandrilloMenai er mwyn darparu amrediad eang o hyfforddiant tan gamp i'n gweithwyr mewn meysydd sy'n amrywio o ddiogelwch bwyd i wasanaeth i gwsmeriaid."

"Mae'r hyfforddiant hwn yn ategu nod ein sefydliad i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i gwsmeriaid ac, ers sefydlu'r bartneriaeth, mae ein gwesty wedi ennill *Statws Busnes Cydnabyddedig WorldHost*."

"Mae hyfforddiant yn gwneud gwahaniaeth go iawn."



# DIWYDIANNAU'R TIR





Ar gampws Glynllifon ger Caernarfon, rydym yn cynnig ystod o gyrsiau ym maes diwydiannau'r tir i'ch helpu i feithrin sgiliau a gwybodaeth mewn pynciau sy'n amrywio o gynnal a chadw llif gadwyn i yrru tractor. Mae'r fferm a'r coetir 300-hectar yn darparu amgylchedd amrywiol a llu o gyfleoedd hyfforddi i ddysgwyr.

## FFERM GLYNLLIFON

Mae 'Fferm Glynllifon' yn ganolfan arloesi ym maes bîff a phorc. Ymhlith buddsoddiadau diweddar a wnaed ar y fferm, mae'r tŷ crwn a godwyd i'r gwartheg ac uned foch o'r radd flaenaf.

Cydweithia'r fferm yn agos â Chyswllt Ffermio ar gynlluniau arloesi a phrosiectau peilot y gobeithir y byddant yn deillio ar ddatblygiadau yn y sector amaethyddol ehangach.

## Mae'r cyrsiau'n cynnwys:

Cyrsiau byr:

- Amaethyddiaeth
- Gofalu am Anifeiliaid
- Llif Gadwyn
- Ffensio a Chodi Waliau
- Coedwigaeth
- Peirianneg Diwydiannau'r Tir
- Plaleiddiaid

Prentisiaethau:

- Amaethyddiaeth
- Nyrsio Milfeddygol



# CERBYDAU MODUR A WELDIO



Cynhelir ein cyrsiau peirianneg cerbydau modur mewn canolfannau pwrpasol sy'n cynnwys y cyfarpar diweddaraf ac sydd cystal â'r canolfannau cynnal a chadw ac atgyweirio gorau a geir yn y maes.

## CYFLEUSTERAU ARBENIGOL

**Yn ein canolfannau arbenigol ar gampysau Dolgellau, Llangefni a'r Rhyl, ceir yr offer diweddaraf, gan gynnwys cyfleusterau i gynnal asesiadau ar roleri ac asesiadau diagnostig, cyfleusterau weldio a ffabrigo, bythod chwistrellu USI, technoleg hybrid a systemau rheoli tymheredd mewn cerbydau.**




## Mae'r cyrsiau'n cynnwys:

**Cyrsiau byr:**

- Cymwysterau'r Corff sy'n Achredu Technegwyr Cerbydau Modur (ATA)
- Cymwysterau Sefydliad y Diwydiant Moduro (IMI)
- Profion MOT
- Weldio

**Prentisiaethau:**

- Peirianneg Cerbydau Modur
- Ffabrigo a Weldio
- Trwsio Cyrff Cerbydau a'u Paentio

# CYSYLLTU Â NI

Pa un a ydych am gael hyfforddiant i chi'ch hun neu i'ch gweithwyr, mae ein Cynghorwyr Datblygu Busnes yma i'ch helpu i wneud y dewis cywir.

**Gan weithio mewn partneriaeth â chi, gwnawn helpu i ddynodi'ch anghenion o ran hyfforddiant a darparu gwybodaeth am yr amrediad eang o gymorth ariannol sydd ar gael.**

**I gael rhagor o wybodaeth, neu i drefnu dod i weld un o'n Cynghorwyr, anfonwch neges ebost i busnes@gllm.ac.uk, neu ffoniwch 08445 460 460.**

**Mae manylion llawn ein holl gyrsiau hyfforddi i fusnesau ar gael ar ein gwefan ar gllm.ac.uk/busnes**

